# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS FERCHER 24.06.2026 YN Y GANOLFAN, WAUNFAWR.

**Presennol –** Cynghorwyr
Hawys Tuff (Cadeirydd)
Dafydd Davies
Doug Jones
Edgar Owen
Elfyn Griffith
Menna Trenholme

**1. Croeso'r Cadeirydd -** Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol.

**2. Ymddiheuriadau –** Cyng ID, Cyng LD, Cyng SB, Cyng Delyth Jones, Shoned Griffith (Clerc)

**3. Datganiadau aelodau yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.**

3.1. Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'.

**4. Derbyn Cofnodion Cyfarfod 20.05.2026**

Cyflog y Clerc yn anghywir a presennoldeb y Cyng EG. Fel arall, y Cyng DJ yn cynnig bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a'r cyfarfod blynyddol yn gywir, y Cyng DD yn eilio.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion 20.05.2026**

**Materion Caeathro** –
**Troedffordd o Gaeathro i Gaernarfon -** Ar 'hold' ar hyn o bryd.
**Gor-yrru** – Parhau i fod yn broblem drwy'r pentref.
**Arwydd Caeathro** – wedi diflannu fel dod i mewn i'r pentref o Gaernarfon. Yng MT wedi hysbysu Cyngor Gwynedd. Dal i aros.
**Potiau Blodau** – Cyng MT i holi Clwb Garddio yn y pentref neu Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro am bris i gadw'r potiau yn daclus.

**Materion Waunfawr** –
**Les tir tu ol i'r Ganolfan** / **Cae Aml-dywydd** – Nodwyd ein bod wedi derbyn cwyn yn ddiweddar am gyflwr y safle. CG i fod i wario £10,000 arno ar ôl i ni dderbyn amodau'r les. Y Cyng DD wedi cytuno i gydweithio gyda'r Cyng SB i edrych drwy'r pwyntiau sydd wedi eu codi gan y Cyfreithwyr er mwyn ceisio symud ymlaen gyda'r les cyn gynted â phosib.
Bydd swyddog o Gyngor Gwynedd yn dod i asesu'r cae aml dywydd yr wythnos hon ac fe wnawn aros am adroddiad ganddynt. Cais ar gyfer y gwaith o glirio'r coed a'r llwyni o gwmpas y cae aml-dywydd a'r cae chwarae wedi ei gymeradwyo gan y tîm Adfywio mewn egwyddor. Aros am arian grant ac aros i'r tymor nythu orffen.

Mae pwyllgor y Ganolfan yn hapus i weinyddu'r system llogi, hyrwyddo ac edrych ar ôl y cae wedi iddo gael ei drosglwyddo i'r Cyngor Cymuned.

**Baw Ci** - Parhau i fod yn broblem.
**Gwefan** – Wedi ei diweddaru. Cannoedd o sylwadau wedi eu rhoi arno – debyg bod ryw fath hacio wedi digwydd. Y Cyng DD am gysylltu gyda Smala.
**Tyllau yn y ffordd / Peintio llinellau -** Aros i Gyngor Gwynedd ail-beintio llinellau gwyn/melyn yn y pentref i gyd a'r llinellau gwyn ar lôn yr Efail (Smithy). Ar y rhaglen waith.
**Arwydd Stâd Bod Hyfryd –** Dal yn aros i Gyngor Gwynedd osod arwydd newydd.
**Gor-yrru** – Parhau i fod yn broblem drwy'r pentref. Y Cyng EG wedi derbyn gwybodaeth gan 'Speed Awareness' am gyfartaledd gyrru trwy'r pentref (34mya) a 38mya ar lon yr Efail (Smithy). Y Cyng EG am edrych mewn i hyn ymhellach.
**Goleuadau'n Fflachio** – Gohebiaeth wedi ei dderbyn gan Glerc Bontnewydd gyda dyfynbrisiau. I'w drafod eto.
**Potiau Blodau** – Cyng SB wedi bod yn cynnal a chadw'r potiau o amgylch y pentref eto. Diolch Sali.
**Lon Garreg Fawr** – Tyfiant yn parhau a rhai cerbydau yn gwrthod mynd lawr y lôn erbyn hyn. CG wedi cysylltu gyda'r Cyng EO – nodwyd eu bod wedi colli'r cyfle i gyflwyno rhybudd Adran 154 i'r tirfeddianwyr oherwydd ein bod ynghanol tymor nythu adar, ond gellir cyflwyno'r rhybudd os oes perygl uniongyrchol yn bodoli. Arolygwr ffordd o CG am ymweld a'r safle cyn dilyn y drefn rhybudd. Tan yr Onnen eisoes wedi cytuno i glirio eu hunain.
**Chwyn** – Wedi derbyn cwyn bod chwyn wedi gordyfu ar ochr lonydd a phalmentydd ar hyd y pentref. Gofyn i'r Clerc ei roi ar raglen waith Tîm Tacluso Gwynedd.

**Grant Gwynedd Ni –** Cais am grant o £12,500 wedi ei wneud ar y cyd gyda Cyngor Cymuned Betws Garmon. Os yn llwyddiannus, byddai hynny'n hwb i wireddu rhai o'r isod:

- 40 o gadeiriau newydd i'r Ganolfan a'r Clwb Snwcer
- Gwaith coed / PVC amrywiol yn y Ganolfan a'r Anecs (gweler y dyfynbris)
- Torri Coed a llwyni wrth y Ganolfan a'r caeau chwarae, angen 2 bris ychwanegol. DD i gydlynu efo Cyngor Gwynedd (Meirion Williams CG)

Wedi son y tro diwethaf hefyd am gael siglen babi – ddim yn rhan o'r cais grant

Mae cais grant i mewn efo CIST Gwynedd am £1668 ar gyfer comisiynu adroddiad anabledd a mynediad. Penderfyniad diwedd Mehefin.

**6.** **Sedd Wag –** Heb gael ei rannu i roi ar yr hysbysfyrddau. Y Cyng MT am holi rywun y mae hi'n ei hadnabod fydda'i o bosib â diddordeb.

**7.** **Gerddi Bach –** Wedi derbyn 2 gwyn am gyflwr y cae – un am yr offer chwarae ac un am y gwair. Y clerc wedi trwsio yr hen dren dros dro fel nad oes sgriws peryg yn dangos a thynnu'r rhannau o'r gêm OXO sydd wedi torri. Cyngor Gwynedd wedi nodi bod coed wedi pydru ac angen sylw. Wedi rhybuddio y byddant yn cau y parc oni bai y bydd gwaith yn cael ei gwblhau. Swyddog yn gweld EO fory.
Y clerc wedi bod mewn cysylltiad gyda MacVenture – maent o dan berchnogaeth newydd ers dechrau'r flwyddyn. Maent wedi bod yna heddiw i wneud archwiliad. Disgwyl adroddiad ganddynt. Y Clerc wedi gofyn iddynt wneud archwiliad ac

adroddiad yn flynyddol o hyn ymlaen - yn fuan yn ystod y gwanwyn fyddai orau. Cost fydd £350 + TAW y flwyddyn. Hyn wedi ei gytuno gan yr aelodau. Trefniant wedi ei wneud i GR Services i dorri'r gwair yno heddiw hefyd. Y ffens eisoes wedi cael ei thynnu lawr er mwyn gallu torri'r gwair i gyd.

Cafwyd trafodaeth ynghylch amlder torri'r gwair ac a ddylid tendro am gontractwyr eraill. Wedi penderfynu aros am y tro a gofyn i'r Clerc asesu bod y gwair yn cael ei dorri yn ôl y gofyn a gweld os ydi hynny'n ddigonol dros yr haf a thrafod yn y cyfarfod nesaf.

Grwp Cynefin angen mynediad i'r cae er mwyn gwneud gwaith i system ddwr y tai cyfagos, Clerc wedi dweud y bydd rhaid cael YGC ar y safle hefyd gan bod angen bod yn ofalus hefo'r gwaith sydd wedi cael ei wneud yn ddiweddar i sortio y broblem llifogydd.

## 8. Adroddiadau

**a. Lloches Bws** – Aros am bris ar gyfer set metal ar gyfer lloches ger yr hen bost. Dal i aros i'r enwau gael eu newid.

**b. Y Fynwent** –Mwsog wedi cael ei drin. Y gorlan sbwriel wedi cael ei hanner clirio. Cytunwyd yn unfrydol ein bod yn tynnu'r gorlan oddi yna.

**c. Llwybrau –** Dim pellach ar hyn o bryd. Gofyn i'r Cyng SB i adrodd yn y cyfarfod nesaf.

**ch. Cynllun Gwyrfai Gwyrdd** – Tyn yr Onnen wedi cael paneli solar ar adeiladau fydd yn golygu eu bod yn cynhyrchu 65kw, a'r gobaith y bydd hyn yn drydan ychwanegol ar gael i'r clwb. Cam 1 y clwb ynni wedi mynd yn fyw. Astudiaeth Dichonoldeb wedi gorffen - cais llawn Cronfa Ynni Glan heb fynd i mewn eto. Mwy o wybodaeth ar wefan Gwyrfai Gwyrdd neu gan y Cyng DD.

- *Nodyn: yn methu cynnwys camerau CCTV ar gyfer y cae amldywydd a chae chwarae wedi ei lincio i'r Ganolfan (rheolau'r grant!!!)*

**d. Gwaith atal llifogydd Waunfawr –** Dim i'w adrodd ar hyn o bryd. Gwteri yn y pentref angen cael eu glanhau. Gofyn i'r Clerc ddilyn hyn i fyny.

.

## 9. Materion Cynllunio

### a. Ceisiadau newydd

| Dyddiad Cofrestru | Bwriad | Lleoliad | Rhif Cais | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

## 10. Gohebiaeth

National Grid – Ymgynghoriaeth Cam 1 (ddim yn effeithio ar Waunfawr)
Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru – holiadur
Huw Rowlands - Clerc Cyngor Cymuned Y Bontnewydd – Goleuadau Fflachio
Theatr Bara Caws – Taith Dadra

## 11. Materion Ariannol

### 11.1 Arian wedi ei dalu allan

**11.2 Arian a dderbyniwyd**

**11.3 Anfonebau i'w talu**

£340.00 G R Services (mynwent BG)

**11.4 Ffioedd Banc**

£0.40 Ebrill - Mai

**14. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf**

Nos Fercher, 29.07.2026, yn y Ganolfan yn Waunfawr.

**15. Materion Aelodau. -**

| | |
|---|---|
| Cyng EO – | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng SB - | Ymddiheuro - ddim ar gael i'r cyfarfod. |
| Cyng DJ - | Ymddiheuro ddim ar gael i'r cyfarfod. |
| Cyng ID - | Ymddiheuro ddim ar gael i'r cyfarfod. |
| Cyng LD - | Ymddiheuro ddim ar gael i'r cyfarfod. |
| Cyng MT - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng DJ - | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng HT - | Eisteddfod yr Urdd Caernarfon 2028 – yn dilyn cyfarfod yng Nghaernarfon i ffurfio pwyllgorau apêl Arfon, mae'r Cyng HT ynghyd a dwy arall o'r pentref am drefnu cyfarfod agored i drigolion Waunfawr, Betws Garmon a Rhyd Ddu yn y Ganolfan ar 06/07/26 am 7pm i sefydlu pwyllgor codi arian a thrafod syniadau. Y targed ariannol yw £5000. Y Cyng EO yn cynnig bod y CC yn talu costau'r Ganolfan ar gyfer cynnal y cyfarfod ac os oes cyfarfodydd yn y dyfodol. Y Cyng EG yn eilio. |
| Cyng DD- | Dim wedi ei dderbyn |
| Cyng EG- | Dim wedi ei dderbyn |